

## RHYDDERCH HAEL (neu HEN)

**Enw:** Rhydderch Hael (Neu Hen)

**Rhiant:** Tudwal Tudelyd ap Clynnog ap Dyfnwal Hen

**Rhyw:** Gwryw

**Maes gweithgaredd:** Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig

**Awdur:** Thomas Jones

mab Tudwal Tudelyd ap Clynnog ap Dyfnwal Hen (Harl. MS. 3859; *Cymm.*, ix, 173). Yn ôl ' Achau'r Saeson,' ymladdodd Rhydderch Hen gydag Urien (Rheged), Gwallawg, a Morgan yn erbyn Husa, brenin Northumbria, c. 590. Dywed Adamnan (624 - 704) ym ' Muchedd Columba ' mai brenin Alclud (Dumbarton, ger Glasgow) ydoedd a'i fod yn gyfaill i S. Columba (521 - 597). Dyna'r unig gyfeiriadau ato mewn dogfennau cynnar. Yn ôl ' Buchedd Cyndeyrn ' gan Jocelyn, bu S. **Cyndeyrn** a Rhydderch farw yn yr un flywyddyn, ond ni wyddys y dyddiad.

Daeth yn ffigur mewn chwedlau a chyfeirir ato yng ngherddi ' Myrddin ' (*Black Book of Carmarthen*, 49.16, 50.3, 52.11, 56.16, 57.16). Cyfeirir ato hefyd fel y buddugwr ym mrywyr Arfderydd, a ymladdwyd, yn ôl Harl. MS. 3859 (*Cymm.*, ix, 155), yn 573. Yn y Trioedd enwir ef fel un o dri haelion Ynys Prydain (*M.A.* 389), cyfeirir at ddiffieithio ei lys gan Aiddan, brenin y Sgotiaid, 574-606 (*ibid.*, 391), a rhoir ' Drudlwyd ' fel enw ei farch (*Black Book of Carmarthen*, 28. 5). Yn ôl *Black Book of Carmarthen*, 64.8-9. fe'i claddwyd yn Abererch; ond y mae'n rhaid mai traddodiad diweddar mewn chwedl yw hyn.

### Awdur

Yr Athro Thomas Jones

### Ffynonellau

Cyfeiriadau uchod

*Oxford Dictionary of National Biography*

*Canu Llywarch Hen* (1935), xxi-xxv

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Rhydderch Hael

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q887367](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jones, T., (1953). RHYDDERCH HAEL (neu HEN). *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 18 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-RHYD-HAE-0590>

Clipboard

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government